ATODLEN 3

Holiaduron: disgrifiad

RHAN 2

Holiadur (ar-lein) i Unigolion

(1) Cwestiwn	*(2) Opsiynau Ymateb*
Pa fath o gartref yw *(cyfeiriad y cyfrifiad)*?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Sefydliad cymunedol (er enghraifft, neuadd breswyl i fyfyrwyr, ysgol breswyl, un o ganolfannau'r lluoedd arfog, ysbyty, cartref gofal, carchar) *(Os dewisir yr opsiwn ymateb hwn, gofynnir y cwestiwn isod yng ngholofn (1) sydd â* (#)*.)* —Cartref preifat neu gartref teulu
Ydych chi'n ateb y cwestiynau hyn drosoch chi eich hun neu ar ran rhywun arall?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Drosof fi fy hun —Ar ran rhywun arall
Os mai "Drosof fi fy hun" yw'r ymateb yna: Beth yw eich enw?	*Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:* *Enw cyntaf* *Enw(au) canol* *Cyfenw*
Os mai "Ar ran rhywun arall" yw'r ymateb yna: Beth yw enw'r unigolyn?	*Rhoddir yr ymateb ar y ffurf ganlynol:* *Enw cyntaf* *Enw(au) canol* *Cyfenw*
(#) Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau yn y sefydliad hwn?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Preswylydd (er enghraifft, myfyriwr, aelod o'r lluoedd arfog, claf, carcharor) —Aelod o staff neu berchennog y sefydliad —Perthynas neu bartner i'r perchennog neu i aelod o'r staff

(1) Cwestiwn	*(2) Opsiynau Ymateb*
	—Aros dros dro (heb gyfeiriad arferol yn y Deyrnas Unedig)
Mae'r cwestiynau dilynol yn yr holiadur hwn yn union debyg i'r cwestiynau yn Holiadur y Cartref (ar-lein) a nodir yn y tabl yn Rhan 1 o'r Atodlen, o a chan gynnwys y cwestiwn "Beth yw eich dyddiad geni?" hyd at ond heb gynnwys y cwestiynau sydd â (‡).	*Mae'r opsiynau ymateb dilynol yn yr holiadur hwn yn union debyg i'r opsiynau ymateb yn Holiadur y Cartref (ar-lein) a nodir yn y tabl yn Rhan 1 o'r Atodlen, o a chan gynnwys yr opsiwn ymateb i'r cwestiwn "Beth yw eich dyddiad geni?" hyd at ond heb gynnwys yr opsiynau ymateb i'r cwestiynau sydd â (‡).* *Nid yw'r cyfarwyddyd cyfeirio sy'n dilyn yr ail opsiwn ymateb i'r cwestiwn "Yn ystod y tymor, ble ydych chi'n byw fel arfer?", na'r cyfarwyddyd cyfeirio sy'n dilyn y cwestiwn "Ydy'r cyfeiriad hwn yn y Deyrnas Unedig?" (y mae'r ddau ohonynt yn cyfeirio ymatebwyr i'r cwestiynau sydd â* (‡)*) yn y tabl yn Rhan 1 o'r Atodlen hon yn gymwys yn y tabl hwn. Yn hytrach, ym mhob achos, y cyfarwyddyd cyfeirio yw: "Os caiff ei ddewis/ Ar ôl y cwestiwn hwn (fel y bo'n briodol), ni ofynnir unrhyw gwestiynau pellach."*